

Eisteddfod

GENEDLAETHOL CYMRU

mewn partneriaeth â
Chyngor Celfyddydau Cymru




Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Supported by
The National Lottery[®]
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch • Cardiff and District 2008 • Y Lle Celf



Eisteddfod

GENEDLAETHOL CYMRU

Caerdydd a'r Cylch 2008

Cardiff & District 2008

National Eisteddfod of Wales



Y Lle Celf

Dymuna Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol Caerdydd a'r Cylch ddiolch:

The Cardiff & District Visual Arts Sub-committee wish to thank:

Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, UWIC /
Cardiff School of Art and Design, UWIC

Olwen Moseley
Christopher Dennis

Charles Byrd	Craig Pumble
Kelly Campbell	Peter Russell
Mike Diment	Jeni Williams
Harold Dyte	Nicole Kallstrom

Llyfrgell Ganolog Caerdydd / Cardiff Central Library
Cyngor Caerdydd / Cardiff Council
Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd /
Newport Museum and Art Gallery
Canolfan Hanesyddol a Chelfyddydau Butetown /
Butetown History and Arts Centre
Canolfan Hanesyddol a Diwylliannol Pontypridd /
Pontypridd Historical and Cultural Centre
Machinations, Llanbrynmair
Ysgol Gyfun Rhydfelen, Gartholwg

Chapter
Canolfan Grefft Rhuthun / Ruthin Craft Centre

Cymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru /
Contemporary Art Society for Wales

Ymddiriedolaeth Derek Williams / Derek Williams Trust
Amgueddfa Cymru / National Museum Wales

Gareth Scourfield
Liz Walder

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru /
Royal Society of Architects in Wales

Safle
TRACE

Academi
Taliesin

Derbyniwyd y cyfraniadau canlynol:
The following contributions were received:

£80	Gwobr Cyngor Tref Caerffili / Caerffili Town Council Award
£40	Gwobr Goffa Eluned Williams / Eluned Williams Memorial Award
£40	Gwobr Goffa Olwen Hughes, Rhymni / Olwen Hughes, Rhymney, Memorial Award
£10	Gwobr Thomas Daniel Varney, Trefdraeth Thomas Daniel Varney, Newport, Award



Cefnogwyd gan grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru /
Supported by a grant from The Art Council of Wales



Cynnwys

Contents

O'r Gadair • From the Chair Iwan Bala	4
Sylwadau'r Detholwyr • Selectors' Statement Claire Curneen, Ifor Davies, Tessa Jackson, Nia Roberts, Sue Williams	8
Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain • The Gold Medal for Fine Art	20
Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio • The Gold Medal for Art and Design	22
Ysgoloriaeth Artist Ifanc • Young Artist Scholarship	24
Gwobrau Eraill • Other Awards	26
Arddangoswyr • Exhibitors	28
Pensaerniaeth yng Nghymru • Architecture in Wales	51
Ysgoloriaeth Bensaerniaeth • Architecture Scholarship	60
Charles Byrd	64
Trace	72

O'r Gadair

From the Chair

Mae'n bleser mawr i mi gael ysgrifennu'r rhagymadrodd i'r catalog hwn ac i arddangosfeydd Y Lle Celf, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch 2008. Fy mhleser innau hefyd oedd cadeirio'r pwyllgor lleol, oedd yn cynnwys aelodau brwdfrydig ac egniol. Haedda un aelod o'r panel yn arbennig ei ganmol. Cyflawnodd Cen Williams dasg anhygoel wrth sicrhau cartref i gasgliad cerfluniau mecanyddol rhyfeddol Charles Byrd. Ar gyfer arddangosfa arbennig yr Eisteddfod eleni mae Cen Williams, ynghyd â'r crochenydd Morgen Hall, wedi curadu arddangosfa o waith yr artist 91 oed hwn, y bu llawer ohono yn gudd o olwg y cyhoedd am flynyddoedd. Yn ogystal â bod yr awtomata wedi ei achub a'i gael i weithio ar gyfer ei arddangos yn Y Lle Celf am gyfnod yr Eisteddfod cafwyd hyd i gartrefi iddynt yn ardal Caerdydd a lleoliadau eraill ledled Cymru. Mae'n arbennig o dda bod Eisteddfod Caerdydd wedi bod yn allweddol mewn ail-adfer gwaith yr artist unigryw hwn o Gaerdydd.

Dros y blynyddoedd, mewn un ffordd neu'r llall, cefais gryn ran yng ngweithgareddau'r arddangosfa flynyddol hon. Mae wedi esblygu o fod yn gystadleuaeth aml-gategori i fod yn arddangosfa agored o'r gelfyddyd gyfoes orau yng Nghymru. Ydy, mae'n dal yn gystadleuol ac mae cryn fri wedi dod i'r Medalau Aur am Gelfyddyd Gain, Crefft a Dylunio a Phensaernïaeth. Ond y prif nod bob amser yw arddangos ystod o waith gan artistiaid a gwneuthurwyr, gan roi i ni'r cyfle i weld beth sy'n mynd â bryd Cymru yn weledol, tra ar yr un pryd yn cynnal elfen guradurol gref. Nid yw'r arddangosfa yma bellach yn gasgliad amrwd o ddarnau a phetheuach. Mae'n cynnig llwyfan i artistiaid ochr yn ochr ag artistiaid eraill sydd o'r safon uchaf. I arddangoswyr sy'n arddangos eu gwaith am y tro cyntaf gall fod yn gam cyntaf diogel i arddangos yng Nghymru a'r tu hwnt, tra bod artistiaid sydd wedi hen sefydlu yn cael y boddhad o wybod bod eu gwaith yn dal i gyrraedd y safon.

Bydd artistiaid yn cydblethu eu hemosiynau gyda'u hargraffiadau o realiti, eu profiadau, eu prosiectau a'u dyheadau, a'r cyfan hynny yn rhoi rhyw allu i'w cynnyrch creadigol i gyfleu rhywbeth mwy am yr hyn sy'n fwyaf real am y pwnc ac am y byd. Mae artistiaid heddiw yn chwaraewyr gweithredol mewn diwylliant sydd wedi bod yn dyst i symudiad chwyldroadol o'r byd modern i'r cyfnod cyfoes - un sydd wedi'n dwyn ni i gyd o oes y cynhyrchu diwydiannol trwm i gyfnod sydd wedi'i ddominyddu gan y diwydiannau gwasanaethu a thechnoleg gwybodaeth - o oes gweithgaredd lleol i oes ymestyn yn fyd-eang. O gyfnod wedi'i ddominyddu gan ideoleg i oes wedi'i dominyddu gan economi'r farchnad, o hen fytholeg at orlwythiad gwybodaeth heddiw, o'r llinellol i gymhlethdod, o'r gorffennol i'r dyfodol. Drwy gasglu ynghyd yr artistiaid a ddewiswyd yn yr arddangosfa hon, cawn ddarlun cliriach o'r Gymru yr ydym yn byw ynddi heddiw, wrth gael cynnig cipdrem fel lanws i'r dyfodol ac i'r gorffennol ar yr un anadl.

Mae arddangosfa eleni yn waith 52 artist a ddewiswyd o gyfanswm o 435 ymgeisydd. Ymhlith yr arddangoswyr mae wyth yn raddedigion diweddar tra bod 19 yn arddangos am y tro cyntaf. Hefyd ceir rhai enwau cyfarwydd nad ydynt wedi bod yn arddangosfa Y Lle Celf am rai blynyddoedd. Bydd yr arddangosfa o reidrwydd yn adlewyrchu rhywfaint o chwaeth a barn y panel detholwyr ac eleni mae elfen gref o ddarlunio yn perthyn i lawer iawn o'r gwaith, Wrth ddefnyddio 'darlunio' rwy'n golygu bod fframwaith strwythuredig i'r gwaith a bod y paentiadau a arddangosir wedi eu tanategu gan ddefnydd cryf ar ddarlunio. Cyflwynodd llawer o'r artistiaid luniadau yn llwyddiannus sydd yn 'waith gorffenedig' ynddynt eu hunain. Tra bod cerflunio yn yr ystyr traddodiadol yn amlwg yn absennol, ceir gweithiau sy'n trawsbontio, cyfosodiadau a gwaith gosod. Ceir hefyd gyfoeth o waith seiliedig ar lensiau.

Eleni rydym hefyd wedi gallu gwireddu sawl gweithgaredd 'ymylol' megis **Lliwiau na allwch chi eu dychmygu** arddangosfa o waith Anthony Goble a fu farw llynedd gyda theyrnedau gan ffrindiau a chydweithwyr. Hoffwn ddiolch i Janice Goble a Ruth Cayford yn Neuadd Dewi Sant yn arbennig am ddewis a hwyluso'r arddangosfa hon. Mae diolch hefyd yn ddyledus i'r rhai sydd wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau celf sydd wedi codi arian ar gyfer yr Eisteddfod, a **Gair o Gelf** yn arbennig, sydd wedi ariannu'r Fedal Aur am Gelfyddyd Gain. Bu'r cydweithio hwn rhwng beirdd ac artistiaid yn llwyddiant mawr, yn artistig ac yn fasnachol. Bydd Oriel Canfas yn arddangos y gwaith hwn yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Mae'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, sy'n agor Y Lle Celf, hefyd yn ymgymryd â'r dasg o brynu o'r arddangosfa ar ran Cymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru. Arddangosir y gwaith celf wedyn yn barhaol yn y Senedd. Gobeithiwn y bydd hyn yn datblygu i fod yn bryniant blynyddol gan y Senedd oddi wrth yr Eisteddfod.

Yn olaf diolch i ddetholwyr yr arddangosfa hon am eu gwaith dyfal a gofalus, a fu'n destun trafod hir. Ac wrth gwrs ar ran y pwyllgor hoffwn ddiolch i'r artistiaid a anfonodd ddelweddau o'u gwaith i'w hystyried ac i annog y rhai oedd yn aflwyddiannus i barhau i gyflwyno'u gwaith yn y dyfodol. 'Dyfal donc a dyr y garreg'.

Iwan Bala

Cadeirydd
Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol



Gorffwyll (gardd) / Crazy (garden)
Chris Nurse a Susan Adams



Rhyw deid 2
Aled Rhys Hughes

O'r Gadair From the Chair

It gives me great pleasure to write the introduction to this catalogue and to the exhibitions of Y Lle Celf of the Cardiff and District 2008 National Eisteddfod of Wales. It was my pleasure also to chair the local committee, which was made up of enthusiastic and energetic members. One member of the panel in particular deserves commendation - Cen Williams has performed an incredible task in securing homes for a collection of Charles Byrd's fantastic mechanical sculptures. For this year's Eisteddfod's special exhibition, Cen Williams, along with ceramicist Morgen Hall, have curated an exhibition of this 91 year old artists' work - much of which has been hidden away from view for years. Not only has the automata been salvaged and put in working order, for display at Y Lle Celf for the duration of the Eisteddfod, but they have been found homes in the Cardiff district and other locations across Wales. It is particularly pleasing that the Cardiff Eisteddfod has been instrumental in rehabilitating this unique Cardiff artists' work.

Over the years, in one way or another, I have had a great deal of involvement with this annual exhibition. It has evolved from a multi category competition, to an open exhibition of the best contemporary art in Wales. Yes, it is still competitive, and the Gold Medals for Fine Art, Craft and Design and Architecture have attained considerable kudos. But the main aim always is to showcase a range of work by artists and makers, giving us an opportunity to see what Wales is 'about' visually, whilst also maintaining a strong curatorial element. No longer is this exhibition a ragbag of bits and pieces. It offers artists a stage alongside fellow artists of the highest standard. For first-time exhibitors it can be a sure foot on the ladder of exhibiting in Wales and beyond, whilst established artists get that satisfaction of proving that they are still 'up to the game'.

Artists interweave their emotions with their impressions of reality, their experiences, their projects and desires, all of which gives their creative output a certain capacity to convey something more of what is most real about the subject and the world. Today's artists are active players in a culture that has witnessed a seismic shift from the modern world to the contemporary era - one that has taken us all from the age of heavy industrial production to a period dominated by service industries and information technology - from the age of local activity to one of global outreach. From an era dominated by ideology to an age dominated by market economy, from old mythology to today's information overload, from linearity to complexity, from the past to the future. By gathering together the selected artists in this exhibition, we gain a clearer picture of the Wales we live in today, whilst being offered a Janus like glance to the future and to the past simultaneously.

This year's exhibition of 52 artists is culled from a total of 435 entrants. Amongst the exhibitors, eight are recent graduates whilst a total of 19 are exhibiting for the first time. There are also some familiar names that have not been in Y Lle Celf exhibition for some years. The exhibition will necessarily reflect something of the selection panel's taste and judgement, and this year there is a strong element of 'drawing' pertaining to a great deal of the work. By 'drawing' I mean that there is a structured framework to the work, and that the paintings on show are underpinned by a strong use of drawing. Several artists have successfully submitted drawings that are 'finished work' in themselves. Whilst sculpture in the traditional sense is notably absent, there are 'cross-over' works; painted assemblages and installations. There is also a wealth of lens-based work.

This year we have also been able to help realise several 'fringe' activities such as **Colours You Can't Imagine** an exhibition of the work of Anthony Goble who passed away last year, with tributes from friends and colleagues. I would like to thank Janice Goble, and Ruth Cayford of St David's Hall in particular for selecting and facilitating this exhibition. Thanks also go to those involved with art events that have raised money for the Eisteddfod, and **Gair o Gelf** in particular, which funded the Gold Medal for Fine Art. This collaboration between poets and artists was a great success, both artistically and commercially. Oriol Canfas showcases this work during the Eisteddfod week.

Lord Dafydd Elis-Thomas, who is opening Y Lle Celf, is also undertaking the task of purchasing from the exhibition on behalf of the Contemporary Art Society for Wales. The artwork will then go on permanent display at the Senedd. We hope this will develop into an annual purchase by the Senedd from the Eisteddfod.

It remains for me to thank the selectors of this exhibition for their diligent and painstaking work, no doubt deliberated over at much length. And, of course, on behalf of the committee, I wish to thank all the artists who sent in images of work to be considered and to encourage those that were unsuccessful to continue to enter in years to come. As the old saying goes 'dyfal donc a dyr y garreg'.

Iwan Bala

Chair
Visual Arts Sub-committee



Di-deit! / Untitled
Hannah Downing



Drych, Betws-y-Coed
Marian Delyth

Sylwadau'r Detholwyr Selectors' Statement

Claire Curneen

Gall yr holl broses o ddethol y gwaith celf ar gyfer arddangosfa fod yn dasg anodd. Felly mae'n deg dweud fy mod rhyw fymryn yn nerfus wrth gyfarfod â'm cyd-ddetholwyr - fel gyda llawer o baneli detholwyr bydd sibrydion yn mynd ar led am anghytuno mawr rhwng unigolion, bydd ego yn gwrthdaro a llawer o ddrama. Nid dyna'r hanes yn y gwaith o ddethol yr arddangosfa Celfyddydau Gweledol ar gyfer Eisteddfod 2008. Roedd ein cyfarfodydd yn rhai heriol ond eto'n deg a democrataidd ac roedd agwedd broffesiynol pob un fu â rhan yn y digwyddiad yn ei wneud yn waith pleserus iawn. Hoffwn ddiolch i Robyn Tomos am gyflawni'r dasg ddiddiolch a wneir ganddo bob blwyddyn i ffrwyno'r panel pan aiff pethau'n gymysglyd a dryslyd.

Mae arddangosfa'r Eisteddfod eleni wedi dod â pheth gwaith cryf iawn at ei gilydd, rhai enwau sydd wedi hen sefydlu a rhai sydd yn wynebau newydd ifanc. Enillais y Fedal Aur am Grefft a Dylunio yn 2001, ac fe gyfrannodd i'm gyrfa oedd yn datblygu ar y pryd, a'm teimlad i yw mai fy nghylch gwaith fel un o'r detholwyr oedd dyfarnu'r gwobrau yn fedalau a gwobrau ariannol - byddai peidio â gwneud hynny yn tansilio'r arddangosfa ei hun. Mae'n hollbwysig hyrwyddo'r arddangosfa yn genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn denu'r gorau posibl o blith yr artistiaid Cymreig; byddai atal y gwobrau yn rhoi awgrym negyddol i'r gymuned artistig a fyddai yn ei thro yn troi ei chefn ar y digwyddiad.

Dyfernir y Fedal Aur am Grefft a Dylunio eleni i Suzie Horan. Mae gan ei gwaith arian gyffyrddiad ysgafn ac mae wedi'i weithio'n harddwych - mae'r arwynebau crychiog yn creu tensiwn fel sbringiau coil ac mae symlrwydd y ffurf yn caniatáu i'r defnyddiwr i ddeall gwneuthuriad y gwrthrych. Mae gwir aeddfedrwydd yn y gwaith hwn yn enwedig gan gofio iddi raddio mor ddiweddar â 2007.



Di-deitl / Untitled
Peter Bodenham

Caiff yr artist Bethan Ash glod uchel am ei chwiltiau radical. Mae'r arfer o wneud cwiltiau wedi ei wreiddio'n gadarn iawn yn y traddodiadol ac yn y benywaidd, ond mae'r cwiltiau hyn yn wrthryfelgar, maent yn chwarae ar ein syniad o'r hyn a gredwn sy'n ddiogel ac yn gartrefol ac yna yn ei droi wyneb i waered. Mae'r cwiltiau hyn yn llafur cariad gyda negeseuon chwerw felys, maent yn gymhleth a cheir ynddynt sylw rhyfeddol i fanylder.

Dyfernir y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain i David Hastie am ei ddarn **Y Ddwy Ford**. Mae gan y darn bresenoldeb corfforol cryf ac mae'n chwarae ar ein disgwyliad o'r hyn sy'n real neu'r hyn a ddychmygir. Mae'r naratif yn fygythiol, eto'n chwareus, ac yn cyfleu'r syniad fod rhywbeth ar fin digwydd. Mae'r gaer neu'r cae caeedig bygythiol yn cyferbynnu gyda breuder y bont rhaff fechan. A yw'n pontio gagendor neu yn rhoi rhyw fath o ddihangfa? Mae cysondeb yng ngwaith Hastie sydd y tu allan i'r hyn a dybir sy'n ffasiynol mewn celfyddyd gyfoes, ac mae'n ddewr ac yn adfywiol.

Mewn cyferbyniad i waith Hastie, teimlai'r panel y dylid rhoi canmoliaeth uchel i David Cushway am ei waith fideo **Darnau**. Mae'n cyflwyno amrantiad cwpan tsieina yn cwmpo ac yn dryllio mewn amseriad araf. Mae gan y weithred fud ddinistriol hon harddwch barddonol ac mae'n dal y gwylwr am eiliad i fyfyrrio ynglŷn ag amser.

Ceir gwir ehangder i'r gwaith yma ac mae'n gyffrous yn arbennig i weld artistiaid ifanc newydd yn cyflwyno'u gwaith yn yr hyn yn fy marn i sydd yn arddangosfa o safon uchel.

Ifor Davies

A ydych chi erioed wedi dyfalu sut y mae'r arddangosfa Celfyddydau Gweledol yn dod at ei gilydd yn yr Eisteddfod? I ddechrau mae pob ymgeisydd yn anfon disg yn cynnwys hyd at chwe atgynhyrchiad digidol o'i waith/gwaith celf. Gellir cyflwyno unrhyw nifer o gynigion sy'n cynnwys hyd at chwe delwedd. Yna gwahoddir pump o bobl (tri y flwyddyn nesaf) i lunio rhestr fer o'r gweithiau, a ddangosir iddynt yn ddiennw, ar gyfer trafodaeth, pleidlais a thrafodaeth bellach. Ar ôl sawl cyfarfod a thrwy ddulliau tebyg, dewisir yr enillwyr i dderbyn y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain a'r Fedal Aur am Grefft a Dylunio. Hefyd dyfernir £5,000 ym mhob categori yn ôl barn y panel.

Eleni roedd y detholwyr yn cynnwys pedair menyw ac un dyn, pob un gyda'u barn gadarn eu hunain - pe bai ond un ohonom wedi bod yn dethol byddai wedi bod yn arddangosfa gwbl wahanol... Y dyddiau hyn, mae pawb yn gyfarwydd â radio, teledu, recordiadau cerddoriaeth a ffotograffiaeth ar ffurfiau digidol, sydd mor hawdd a chyflym i'w defnyddio. Ond hyd yn oed gyda miliynau o bicseli a'r offer gorau yn y byd, mae'r ddelwedd ddigidol a daflunnir yn wastad ac mae iddi arwyneb fel plastig. Collir cysgodion a gofod mewn tri dimensiwn, i'r fath raddau fel ei bod yn anodd dweud a yw'r ddelwedd yn ddarn o gerflunwaith, paentiad neu lithograff. Arferem gwyno am sleidiau, ond roeddent yn rhoi gwell atgynhyrchiad o'r peth go iawn. Ar un adeg, pan oedd llai o



Semana Santa, Malaga 1
Robert Greetham

ymgeiswyr roedd hi'n bosibl dewis o'r gweithiau gwreiddiol yn eu holl siapau a meintiau - nid yw hynny yn bosibl y dyddiau hyn. Ai dyna yw datblygiad?

Fodd bynnag, eleni roedd 435 o gynigion a gobeithiaf y bydd hyd yn oed nifer fwy o artistiaid a gwneuthurwyr yn cyfranogi, yn enwedig y rhai hynny sy'n meddwl nad yw'r Eisteddfod yn berthnasol iddynt hwy. Mae'r wyl flynyddol hon yn ddigwyddiad unigryw sy'n haeddu pob cefnogaeth.

Bob blwyddyn dyfernir yr Ysgoloriaeth Artist Ifanc gwerth £1,500 i berson o dan 25 oed i'w alluogi ef neu hi i ddilyn cwrs mewn coleg celf neu fynychu dosbarthiadau meistr. Eto eleni roedd safon y cynigion yn eithriadol o uchel ac mae'r enillydd yn arddangos ymhlith y rhai dethol. Mae rhai o'r myfyrwyr a'r graddedigion newydd hyn mor dda â'r rhai mwy profiadol.

Sylwadau'r Detholwyr Selectors' Statement

Heddiw edrychwn ymlaen lawn cymaint ag yr edrychwn yn ôl. Mae'r arddangosfa yn denu miloedd o ymwelwyr - record Ewropeaidd efallai am wythnos o arddangos - hyd yn oed pan na fydd hi'n bwrw glaw. Yn ôl yn 1965 dyma oedd sylw'r artist Arthur Pritchard ar gelfyddyd weledol yr Eisteddfod Genedlaethol:

'Lle bo'r gwobrau llenyddol yn y cwestiwn, bydd y cyhoedd yn gyffredinol yn derbyn penderfyniad y beirniaid... hyd yn oed pan fydd y mwyafrif mawr ddim yn deall yn iawn ac efallai ddim hyd yn oed yn mynd i ddarllen y gwaith. Yn y Celfyddydau Cain mae'r sefyllfa yn wahanol a phawb yn barod iawn i roi eu sylwadau.'

Mae'r traddodiad o gwyno am gelfyddyd 'fodern' a 'chyfoes' wedi lleihau yn wir gyda hanes celf boblogaidd ar y teledu, syndod am brisiau yn yr arwerthiannau a phobl yn fwy cyfarwydd â gweithiau celf. Er bod gan Brydain Fawr draddodiad gweledol gwan hyd yn ddiweddar, mae artistiaid Cymreig wedi bod ar flaen y gad ac mae celfyddyd yn llwyrchus yng Nghymru Am y rheswm hwn dylai Y Lle Celf gael safle canolog yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyna faint oedd hi i gael cyfranogi.

Tessa Jackson

'Am un wythnos bob blwyddyn hon yw ein horiel gelfyddyd gyfoes genedlaethol'. Roedd y frawddeg hon yn sefyll allan ymhlith y manylion a baratowyd gan yr Eisteddfod Genedlaethol a'u dosbarthu i'r panel o bum detholwr ar ddechrau ein trafodaethau. Mae'r arddangosfa Celfyddydau Gweledol ers sawl blwyddyn wedi cyflawni rôl unigryw ym mywyd diwylliannol Cymru ac wedi cynnig digwyddiad arwyddocaol i weld gwaith ystod eang o artistiaid a gwneuthurwyr. Mae newydd ddyfodiaid yn cymysgu â rhai sydd wedi hir sefydlu yn Y Lle Celf. Felly mae derbyn gwahoddiad i ddarganfod rhagor am artistiaid sy'n byw ac yn gweithio yng



Yn ei lun / In his image
Birmingham & Robinson

Nghymru, i gynefino yn fwy gyda phwy sy'n gwneud beth ac i fod yn rhan o'r broses drafod ynghylch iechyd y celfyddydau cain yng Nghymru, wedi bod yn gyfle pwysig.

O'r 435 artist a gyflwynodd eu gwaith, dewiswyd 52 yn derfynol - ac mae'n siŵr y bydd dadlau ynglŷn â phwy gafodd eu cynnwys a phwy yn anffodus na chafodd eu dewis. Wrth ddewis, codwyd ystyriaethau y tu hwnt i weithiau unigol gan groesi i sut fyddai'r gweithiau yn dod at ei gilydd yn arddangosfa gyfan. Yn hytrach na chynnwys mwy o artistiaid a gwneuthurwyr, teimlad y mwyafrif o'r detholwyr oedd y byddai corff bychan o waith gan ychydig o artistiaid yn fwy buddiol i'r gynulleidfa arfaethedig a hefyd eu hawduron. Mae'r Eisteddfod yn draddodiadol a thrwy ei natur yn gystadleuol. Hyn sy'n rhoi cymeriad a chyffro i'r digwyddiad. Eto i gyd wrth gwrs mae mynegiant creadigol un person yn anodd ei gymharu ag un arall.

Mae'r gweithiau yn cyfuno medr eithriadol, dealltwriaeth o'r cyfrwng, manylder bob dydd ynghyd â thrasiedi digwyddiadau byd-eang. Mae hiwmor, tristwch a dynoliaeth i gyd yn amlwg. Mae rhai artistiaid a gwneuthurwyr yn mwynhau llwyddiant proffesiynol helaeth, ac eraill dim ond wedi gadael ysgol gelf yn ddiweddar. Mae un neu ddau yn dilyn gyrfaedd eraill ond maent yn ymroddedig i wneud gwaith celf yn brif ysgogiad eu bywyd. Nid yw dethol yn wyddor ond mae gallu cyfuno cynnwys hynod, gallu technegol gyda risg deallus er mwyn cynhyrchu golygfa weledol unigol yn hollbwysig.

Ers datganoli mae Cymru wedi datblygu nifer o gyfleoedd newydd i gyflwyno ei thalentau creadigol ac mae ei rhwydwaith orielau wedi elwa o ddatblygiad cyfalaf a ariennir gan y loteri. Mae'r arddangosfa Celfyddydau Gweledol hon yng Nghaerdydd yn digwydd ar amser diddorol o ran sut y gallai'r wlad gryfhau ymhellach ei gallu yn y celfyddydau gweledol, er mwyn cael ei gweld yn genedlaethol a'i



Bryn a Doreen Lewis
Sam Bakewell

chydabod yn rhyngwladol. Mae rôl a disgrifiad oriel genedlaethol eisoes wedi bod yn destun cryn drafodaeth. Mae lle mae'r celfyddydau gweledol cyfoes yn gorwedd o fewn hyn yn dal i gael ei drafod. Mae angen llwyfannau cenedlaethol cryf i ddangos gwlad a'i chynnyrch ar eu gorau. Maent hefyd yn ysgogi balchder ym mhawb ynglŷn â sut mae gwlad yn dod o hyd i'w lle yn y byd mawr crwn. Pa artistiaid, heb sôn am gynulleidfaoedd, sydd heb fwynhau a chydabod pwysigrwydd casgliad anhygoel y Chwiorydd Davies o weithiau Prydeinig a Ffrengig o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd?

Mae arddangosfa Celfyddydau Gweledol yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhoi enghraifft hollbwysig o'r hyn sydd eto angen i ni ei gyflawni a'i gydnabod. Dewch i ni fawrygu pob un o'r artistiaid a'r gwneuthurwyr a gyflwynodd eu gweithiau am beidio â bod ofn cystadlu, am ddymuno gosod eu gwaith yn y byd ehangach ac am gryfhau sut y gwêl Cymru ei hun.

Sylwadau'r Detholwyr Selectors' Statement

Nia Roberts

Braint oedd cael fy ngwahodd i fod yn un o ddetholwyr arddangosfa agored Y Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd - ond nid oedd yn waith hawdd o bell ffordd, nac yn bleserus i gyd chwaith. Mae dewis arddangosfa drwy gonsensws yn gallu bod yn broses eithaf rhwystredig. Roedd rhif eithriadol o ymgeiswyr - fel y disgwylwn i wyl y brifddinas - ond siomedig oedd gweld bod nifer o artistiaid amlwg heb ymgeisio.

Mae arddangosfeydd agored, gydag artistiaid yn cynnig eu gwaith i'w gynnwys, ac efallai, ennill gwobr, yn hytrach nag arddangos trwy wahoddiad neu gomisiwn, wedi dod yn hynod boblogaidd. Yn ddiweddar, gwelwyd arddangosfa agored bob yn ddwyflwydd Oriol Davies, Y Drenewydd, yn ennill ei phlwyf er nad yw wedi bodoli ond ers 2004. Gwelwyd hefyd sefydlu arddangosfa gyntaf Oriol Mission yn Abertawe. Un sydd ag enw da rhyngwladol yw arddangosfa agored Oriol Mostyn, Llandudno - edrychwn ymlaen at weld y sioe gyntaf yn yr oriel ar ei newydd wedi'r gwaith adnewyddu enfawr ddod i ben yno. Dim ond trawstoriad yw hwn o ystod eang o arddangosfeydd agored Cymru. Ymysg y rhain mae'n bwysig i arddangosfa'r Eisteddfod gynnal ei phwysigrwydd a'i statws fel y brif arddangosfa wobrwyo sy'n agored i artistiaid Cymru - nid yn unig o ran nifer ymwelwyr ond hefyd o ran safon a deinamig y gwaith sy'n cael ei arddangos. Efallai bod angen ysgogi tipyn o drafodaeth ynglŷn â natur yr arddangosfa yn gyffredinol. Bellach, a oes angen cynnig dwy wobwr ar wahân, gyda chynifer o grefftwyr yn teimlo yn fwy cyfforddus yn cael eu hystyried fel artistiaid?

Mae'r defnydd o'r gair crefft yn dod yn llai amlwg i ddisgrifio'r math o waith a gynhrychir ond yn hytrach y sgiliau sydd ei angen i'w gynhyrchu. Mae Canolfan Grefft Rhuthun newydd ail-agor ar ôl ei hail-adeiladu a'i thrawsnewid yn llwyr ac i'w hadnabod bellach fel y brif ganolfan ar gyfer y celfyddydau cymhwysol yng Nghymru. Wedi newid enw pafiliwn Celf a Chrefft yr Eisteddfod yn Lle Celf, a oes angen gwahaniaethu rhwng y ddau gyfrwng? Oni ddylid cynnig un wobwr ffantastig o £10 mil?



Portreadau o strydoedd Valencia 234 /
Portraits from the streets of Valencia 234

Tim Robinson

Beth bynnag yw'r farn am hynny, roedd yn braf gweld tri o'r wyth portffolio a ddewiswyd i gael golwg manylach arnynt ar gyfer dyfarnu'r Ysgoloriaeth Artist Ifanc. Gwaith llaw hynod o gywrain a hardd gan artist tecstilau o Fangor ddaeth i'r brig. Llongyfarchiadau i Anna Pritchard a fydd yn defnyddio'r arian i'w galluogi i dderbyn gwersi meistr gan Francis Moore, gwehydd byd-enwog yn Halifax, Swydd Efrog. Dilynodd Anna Pritchard gwrs dylunio tecstilau, gan arbenigo mewn gwehyddu, ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion ac ar ôl

graddio yn 2007, dewisodd ddychwelyd i'w bro enedigol i sefydlu ei busnes ei hun. Bydd yr hyfforddiant pellach yn ei helpu i berffeithio ei sgiliau. Mae'n cynhyrchu brethyn ar gyfer y tŷ ac ategolion mewn lliwiau cynnes a chyfoethog ac edrychwn ymlaen at ddilyn datblygiad ei gwaith yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion 2009, lle bydd yn derbyn gwahoddiad i arddangos ei gwaith. Efallai, mewn blynyddoedd i ddod fe welwn brifardd yr Eisteddfod yn ennill cadair esmwyth wedi ei gorchuddio gyda brethyn gan Anna Pritchard - olreit, hwyrach bod yr awgrym yna ychydig yn rhy radical ond mae'n siŵr y buasai ambell i fardd yn falch o glustog esmwyth, hardd o'i gwaith i'w roi ar gadair bren.

Sue Williams

Pan ofynnwyd i mi a fyddwn yn barod i fod yn ddetholwr yn Eisteddfod Genedlaethol 2008 nid oeddwn wedi llwyr werthfawrogi anferthedd y cyfryw wahoddiad. O fewn y diwrnod cyntaf, yn wir o fewn yr awr gyntaf, sylweddolais fod yr hyn a ofynnwyd i mi ei wneud yn fraint fawr. Roedd y diwrnod cyntaf yn baratoad ar gyfer yr hyn a allaf ddweud yn onest oedd y profiad mwyaf heriol a gefais ers amser hir. Roedd y cyfrifoldeb o ddethol arddangosfa o nifer mor fawr o gynigion yn anodd a thrafferthus. Fel ymarferydd sydd wedi gwneud cais i nifer o arddangosfeydd agored dros y blynyddoedd yr wyf yn dod yn gynyddol ymwybodol nad oedd y broses ddethol hon yn dasg hawdd o gwbl. Pysuraf i ychwanegu nad yw'r penderfyniadau a wnaed yn adlewyrchu y gwir nifer o artistiaid sy'n gweithio'n gydag ymroddiad, dycnwch a dilysrwydd drwy eu gwahanol ffurfiau celf ond mae'n rhaid i'r penderfyniadau hyn gael eu gweld fel dangosyddion gwerthfawr o ba mor fywiog bellach yw sefyllfa'r celfyddydau gweledol yng Nghymru.



Soar-y-Mynydd 2004

Haydn Denman

Ar ôl edrych ac ail edrych droeon ar gannoedd o ddelweddau jpg a fideos, a chyfnodau o drafod dwys a llawer o drafodaethau diddorol (weithiau'n benboeth) rhwng pum person â phersonoliaeth gref, pob un a'i faes penodol o arbenigedd cafwyd canlyniad cadarnhaol a daw hyn ar ffurf arddangosfa gydasiol, gyffrous a deinamig.

Mae'r Eisteddfod yn llwyfan ardderchog ar gyfer dangos croestoriad o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, a beth sy'n fwyfwy amlwg dros y blynyddoedd yw'r nifer cynyddol o gynigion a geir gan raddedigion diweddar. Dylid annog y duedd hon er mwyn adeiladau ar enw da cynyddol Cymru am hyrwyddo byd celf sy'n gyfoes a blaengar. Mae angen i Gymru ddal wrth y newydd yn ogystal â meithrin yr hyn sydd wedi sefydlu. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cynnig y sefyllfa unigryw honno pryd y gallwn fod yn dystion i'r artist sefydledig ochr yn ochr â'r myfyriwr graddedig diweddar - nid dim ond amlygu cyfoeth mawr creadigrwydd yng Nghymru a wna ond mae'n tanlinellu'r sefyllfa honno lle nad oes ffiniau, dim hierarchaeth a lle ceir deialog agored.

Mae enillwyr gwobrau 2008 yn haeddu'r gydnabyddiaeth a byddant yn cael sylw mawr drwy'r profiad hwn, gyda digon o ddiddordeb o du'r cyfryngau ac ymgysylltiad gyda chynulleidfa. Dymunaf yn dda iddynt yn y dyfodol.

Sylwadau'r Detholwyr Selectors' Statement

Claire Curneen

The whole process of selecting artwork for an exhibition can be a daunting task. So it is fair to say that I was a little nervous when meeting my co selectors - as with many selection panels rumours fly about big disagreements between individual, egos clashing and a lot of high drama. This was not to be the case at the 2008 Eisteddfod selection for the Visual Arts Exhibition. Our meetings were challenging yet fair and democratic and the professionalism of everyone involved made the event very enjoyable. I would also like to thank Robyn Tomos for the thankless task he has each year of reigning in the panel when things got muddled and confused.

This years' Eisteddfod exhibition has brought together some very strong work, some established names and some new young blood. I have been the beneficiary of the Gold Medal for Craft and Design in 2001, which contributed to my developing career then, and I feel that my remit as one of the selectors was to award both medals and the prize money awards - not to do so undermines the exhibition itself. It is crucial to promote the exhibition nationally and internationally in order to attract the very best of Welsh artists, to withhold the awards sends negative signals to the artistic community who in turn will turn their backs on the event.

This years' Gold Medal for Craft and Design is awarded to Suzie Horan. Her silverware has a lightness of touch and is beautifully crafted - the rippled surfaces create a tension like coiled springs and the simplicity of form allows the user to understand the objects' manufacture. There is real maturity in this work, especially since she has only graduated in 2007.

Highly commended is the artist Bethan Ash for her radical quilts. The practice of quilt making is very much grounded in tradition and the feminine, but these quilts are subversive, they play on our notion of what we believe to be safe and



Di-deitl / Untitled
David Rees Davies

domestic and then reverses it. These quilts are labours of love with bitter sweet messages, they are intricate and have some wonderful attention to detail.

David Hastie is awarded the Gold Medal for Fine Art for his piece **The Two Tables**. The piece has a strong physical presence and plays on our expectation of what is real or imagined. The narrative is ominous yet playful and conveys a sense of imminence. The menacing fort or enclosure contrasts with the delicacy of the miniature rope bridge. Is it bridging a gap or providing some form of escape? There is consistency in Hastie's work which sits outside what is deemed to be fashionable in contemporary art, which is both brave and refreshing.

In contrast to Hastie's work the panel felt David Cushway should be highly commended for his video piece **Fragments**. He presents a split second moment of a china teacup falling

and smashing in slow motion. This destructive silent act has a poetic beauty and suspends the viewer for a moment to contemplate time.

There is a real breadth of work here and it is exciting in particular to see new young artists present their work in what has been in my view an exhibition of high quality

Ivor Davies

Have you ever wondered how the Visual Arts exhibition springs up at the Eisteddfod? To begin with each applicant sends in a disk containing up to six digital reproductions of his or her artworks. Any number of entries, consisting of up to six images, may be made. Then, five people (three next year) are invited to draw up a shortlist from works, shown to them anonymously, for discussion, voting and further debate. After several meetings and by similar means, winners are selected to receive the Gold Medal for Fine Art and the Gold Medal for Craft and Design. £5,000 in each category is also awarded at the panel's discretion.

This year the selectors consisted of four women and one man, each with her or his strong opinion - if only one of us had been selecting it would have been a totally different exhibition... Nowadays, everybody is familiar with radio, television, musical recordings and photography in digital forms, that are so easy and quick to use. But even with millions of pixels and the best equipment in the world, the projected digital image is flat and has a surface like plastic. Shadows and space in three dimensions are lost, to an extent that is difficult to tell if the image is a piece of sculpture, a painting or a lithograph. We used to grumble about slides, but they did give a better reproduction of the real thing. And at one time, when there were fewer



Tair ffurf gron / Three rounded forms
Duncan Ayscough

Sylwadau'r Detholwyr Selectors' Statement

applicants, it was possible to select from the original works in all their shapes or sizes – an impossibility nowadays. So much for progress.

However, this year there were 435 submissions and I hope that even more artists and makers will participate, especially those that think the Eisteddfod is not for them. This annual festival is a unique event which deserves all support.

Every year the Young Artist Scholarship of £1,500 is awarded to a person under 25 years to enable him or her to pursue a course in a school of art or to attend master classes. Again, this year, the standard of entries was exceptionally high and the winner is exhibiting among the elect. Some of these students and new graduates are as good as their elders.

Today, we look forward as much as to the past. The exhibition draws in and attracts thousands of visitors – possibly the European record for a week's showing – even when it is not raining. Back in 1965 the artist Arthur Pritchard remarked upon the National Eisteddfod visual arts:

'Where the literary awards are concerned, the public generally will accept the decision of the judges... even when the great majority will not really understand and may never even read the work. In the Fine Arts the position is different in that everyone is gladly prepared to pass judgement.'

The tradition of complaining about 'modern' and 'contemporary' art has indeed decreased with popular television art history, salesroom price surprises and general familiarity with works of art. Though Great Britain has had a weak visual art tradition until recently, Welsh artists have been in the vanguard and art is flourishing in Wales. For this reason Y Lle Celf should occupy a central position in the National Eisteddfod. What a privilege to participate.



Araf / Slow
Hywel Harris

Tessa Jackson

'For one week of each year this is our national gallery of contemporary art'. This sentence stood out within the details drawn up by the National Eisteddfod and given to the panel of five selectors at the beginning of our deliberations. The Visual Arts exhibition has for many years played a unique role in the cultural life of Wales and provided a significant occasion to experience the work of a wide range of artists and makers. Newcomers mix with well established in Y Lle Celf. So to be invited to find out more about artists living and working in Wales, to become more familiar with who is doing what, and, to be part of the discussion process as to the country's health in the visual arts, has been an important opportunity.

From 435 artists who submitted, 52 were finally selected – and no doubt there will be debate as to who has been included and who unfortunately has not. In selecting, considerations

went beyond individual works and crossed into how the works would amass into an overall exhibition. Rather than include more artists and makers, it was felt that a small body of work by most would be more beneficial to the prospective audience, as well as their authors. The Eisteddfod is by its very history and on-going nature, competitive. This gives the event its character and edge. Yet of course one person's creative expression is hard to compare to another.

The works combine extraordinary skill, understanding of media, daily detail as well as the tragedy of world events. Humour, pathos and humanity are all evident. Some artists and makers are enjoying considerable professional success, others have only recently left art school. One or two pursue alternative careers but are committed to making artwork as the main driver in their lives. Selecting is not a science but being able to combine unusual content, technical ability with intelligent risk taking in order to produce an individual visual view, becomes paramount.

Since devolution Wales has developed a number of new opportunities to present its creative talents and its gallery infrastructure has benefited from lottery funded capital development. This Visual Arts exhibition in Cardiff comes at an interesting moment in how the country might look to strengthen further its capability in the visual arts, to be seen nationally and recognised internationally. The role and description of a national gallery has already had considerable debate. Where the contemporary visual arts sits within this is still under discussion. Strong national platforms are essential to show the best of and from a country. They also enable collective pride in how a country sits in the wider world. Which artists, not to mention audiences in Wales have not enjoyed and recognised the importance of the extraordinary Davies Sisters collection of British and French 19th and 20th century works at the National Museum Cardiff?



Anifaileiddiadau / Animalosities
Caroline Taylor

The National Eisteddfod's Visual Arts exhibition provides a vital example of what we still need to achieve and recognise. Let us salute all the artists and makers who submitted, for not being shy of competition, for wanting to place their work in the wider world and for strengthening how Wales sees itself.

Nia Roberts

It was a privilege to have been invited to act as a selector for the open exhibition at Y Lle Celf at the Cardiff National Eisteddfod. This was not an easy task, though, and neither was it without its difficulties because selecting works for inclusion in any exhibition on the basis of a consensus can be quite a frustrating process. This year a great many competitors submitted works for consideration – as is only to be expected for our national festival being held in our capital city – but it was disappointing to see that a number of recognised artists did not submit works this year.

Sylwadau'r Detholwyr Selectors' Statement

Open exhibitions, with artists submitting works for possible inclusion and possibly winning an award rather than exhibiting by invitation or as the result of a commission, have become very popular. In recent years we have seen a bi-annual open exhibition being held at Oriol Davies Gallery in Newtown, which is now assuming real significance even though it was only held for the first time in 2004. We have also had the first exhibition to be held at Swansea's Mission Gallery. Oriol Mostyn in Llandudno, meanwhile, holds an internationally-acclaimed open exhibition and we look forward to seeing the first show to be held at the revamped gallery after completion of its major renovation. And this is just a cross-section of the wide range of open exhibitions held in Wales. As one such event, it is essential that the Eisteddfod exhibition should retain its status and importance as the main award-giving exhibition for Welsh artists - not only because of the number of visitors it attracts, but also for the standard and dynamism of the works on display. It might be useful to stimulate discussion as to the nature of this exhibition in general. These days, should two separate prizes be awarded given that many crafts people are more comfortable with the fact they are regarded as artists?

The Blaenafon World Heritage Centre is an outstanding example of the successful introduction of contemporary design into a conservation setting. The renovation of the existing school buildings has been carried out with text-book sensitivity, as evidenced by the newly slated roof using Welsh slates laid in diminishing courses, lead cappings, cast iron rainwater pipes and gutters, and new timber window frames which are faithful representations of the originals.

The hard and soft landscaping provides a welcoming and clearly legible entrance and the double height reception area combines old and new elements to their mutual advantage. The junction of the new glazed roof with the original external stone wall is wonderfully minimalist and allows the latter to be fully appreciated.

The glazing of the new element - in particular the vertical slice opposite the café entrance - brings the views of distant hills and their industrial legacy into the building with a striking immediacy. At first floor level, these views are mediated by the wild flowers and meadow grasses of the café roof which act as a near distance counterpoint to the barren hills in the far distance. This unusually visible vegetation, which arouses interest from the entrance approach, is a welcome alternative to many 'green roofs', which are more often finished with close-cropped sedum and frequently not at all visible from below.

The judges commended the integrated sustainability of the design and the low-tech, passive approach, using high thermal mass, natural stack ventilation and night time cooling to achieve good environmental performance and comfort conditions. We are conscious that this project has achieved the retention of heritage buildings which might otherwise have been lost and trust that it will play a positive role in the promotion of tourism and the economic regeneration of the area.

The Plaque of Merit

Of the smaller schemes submitted, one stood out for its aspiration to high quality design, its response to the context, and commitment to sustainable design and construction. The extension to Unit 4, Aberystwyth Science Park, has been slotted into the space available in a way which connects it to, but distinguishes it from, its 'parent building' and maximizes its relationship with the surrounding landscape. The balcony and picnic area overlooking the pond provide a welcome external staff amenity which is missing from most commercial developments.

The distinctive and memorable roof form and materials offer a refreshing alternative to the prevailing mode of industrial shed or pseudo domestic architecture which is prevalent on many retail or industrial parks. In particular, the successful use of home-grown oak, a native hardwood which is extremely durable without the need for chemical preservatives, and which will weather attractively over time, is commendable.

Cindy Harris

Richard Weston

Ysgoloriaeth Bensaerniaeth

Architecture Scholarship

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er mwyn hybu pensaerniaeth a dylunio yng Nghymru ac fe'i dyfernir i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ledaenu ei ymwybyddiaeth o bensaerniaeth greadigol. Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r sawl dan 25 oed.

Ysgoloriaeth:

£1,500

Detholwyr:

Gwyn Lloyd Jones, Stephen West

Dyfernir yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth i

Philip Henshaw Pwllheli

Sylwadau'r detholwyr

Ar gyfer yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth eleni cawsom gymysgedd amrywiol a chyfoethog o ymgeiswyr o ysgolion pensaerniaeth a chelf ar draws y Deyrnas Gyfunol. Gwnaed y broses ddethol yn anoddach o orfod cynnwys a gwerthuso'r meysydd creadigol ac artistig ehangach hyn. Yr hyn a wnaeth fwyaf o argraff arnom yn y cyflwyniadau mwyaf llwyddiannus oedd safon y deunydd gweledol, yr arlunio, y gwaith modelu a'r delweddau pensaerniol, yn ogystal ag eglurder bwriad. Mae'r nodwedd hon hefyd yn cynorthwyo i bwysleisio'r trawsgroesi rhwng celfyddyd a phensaerniaeth y gall yr ysgoloriaeth hon ei feithrin.

Dewiswyd Philip Henshaw gennym yn enillydd yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth ar gyfer 2008 yn seiliedig ar ei ddyheadau clir a chyraeddadwy ar gyfer yr ysgoloriaeth, ynghyd â'r portffolio ardderchog a gyflwynwyd. Roedd y gwaith a gynhwyswyd gyda'r portffolio o safon uchel iawn wedi ei seilio ar brosiectau o fewn Cymru a Phortiwgal. Roedd lluniau Philip yn gyforiog o ymchwil a photensial. Roedd cyflwyniad y gymuned ecolegol a thyrau dŵr Porto yn harddwych ac roedd iddo deimlad o weithio organig oedd â natur Gymreig iddo. Bwriad Philip ar gyfer yr ysgoloriaeth yw gwneud taith ymchwil fer i Ewrop,


er mwyn ymestyn ei ddeunydd ffynhonnell lenyddol ac i wneud ymyriad graddfa fechan o fewn Cwm Rhondda. Roedd y gwaith gosod newydd wedi'i fwriadu i ymchwilio a datgelu "Trefolaeth Dros Dro" drwy gyfrwng gwaith gosod. Roedd yr amcanion hyn yn teilyngu ein cefnogaeth a byddwn yn edrych ymlaen at weld ei draethawd gweledol yn Eisteddfod y flwyddyn nesaf.

Hoffem gyfeirio at waith tri ymgeisydd arall a gafodd gryn dipyn o sylw yn ystod ein trafodaethau. Daliodd gwaith **Ceri Williams** yn arbennig ein sylw gyda'i medr arlunio ardderchog a'i gwaith modelu arloesol a arweiniodd at rai cynigion dylunio gwych, gyda rhai o'r rhain hefyd yng Nghwm Rhondda. Roeddem o'r fam ei bod yn ddylunydd medrus iawn a'i bod wedi creu cyflwyniad portffolio crefftus. Roedd gan **Lianne Russ** ddiddordeb yn agweddau tectonig a cherfluniol pensaerniaeth ac fe gofnodwyd ei gwaith ymchwil yn wych gyda lluniau manwl a modelau peirannau crefftus. Integreiddiodd **Sarah Baguley** athroniaeth gynaliadwy i'w gwaith gyda syniadau llawn dychymyg ar gyfer tyfu tirwedd werdd ar safle trefol pencadlys yr Urdd, ac roedd ei thaith ffordd gynaliadwy yn haeddu clod.

Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel ac roedd astudio cynigion gweledol manwl pob un o'r ymgeiswyr yn bleser mawr. Byddem yn annog pob un o'r ymgeiswyr na fu'n llwyddiannus, ac sydd yn gymwys, i ail-gyflwyno ar gyfer Ysgoloriaeth Bensaerniaeth y flwyddyn nesaf. Byddem yn ailddatgan yn ogystal â phortffolio da, bod y detholwyr yn chwilio am fwriad clir a dyheadau uchelgeisiol (ond cyraeddadwy) a fydd yn hyrwyddo eu sgiliau dylunio hwy eu hunain ac yn y pen draw Dirwedd Adeiledig Cymru.

Gwyn Lloyd Jones

Stephen West



Syniad rhwydwaith / Network idea
Philip Henshaw



Diwydiannau'r Cymoedd / Valleys' industries
Philip Henshaw

Ysgoloriaeth Bensaernïaeth

Architecture Scholarship

This scholarship has been established to promote architecture and design in Wales. The scholarship is awarded to the most promising candidate to enable him or her to further his or her understanding of creative architecture. The scholarship is open to those under 25 years.

Scholarship:

£1,500

Selectors:

Gwyn Lloyd Jones, Stephen West

The Architecture Scholarship is awarded to

Philip Henshall Pwllheli

Selectors' statement

For this year's Architecture Scholarship we had a diverse and rich mix of candidates from architecture and art schools throughout the United Kingdom. The selection process was made more difficult embracing and evaluating these wider creative and artistic fields. It was the quality of the visual material, drawing, model making and architectural visualisations, that impressed us in the most successful submissions, as well as clarity of intention. This quality also helps to emphasise a cross over between art and architecture that this scholarship can foster.

We selected Philip Henshaw as the winner of the Architecture Scholarship for 2008 based on his clear and realisable aspirations for the scholarship coupled with an excellent portfolio submission. The work contained within the portfolio was of a very high standard and was based on projects within Wales and Portugal. Philip's drawings were rich in investigation and potential. The ecological community and the Porto water towers were presented beautifully and had a sense of organic crafting that had a Welsh character. Philip's intention for the scholarship was to make a short research trip to Europe, to extend his literature source material, and to make a small-scale

intervention within the Rhondda Valley. The new installation was to explore and expose "temporary urbanism" by means of an installation. These aims were worthy of our support and we will be looking forward to his visual essay at next year's Eisteddfod.

We would like to mention the work of three other candidates that were much discussed during our deliberations. The work of **Ceri Williams**, in particular caught our attention with her excellent drawing skill and innovative model making that led to some marvellous design proposals, some of these also in the Rhondda. We thought that she was very proficient designer and she made a well crafted portfolio submission.

Lianne Russ was interested in the tectonic and sculptural aspects of architecture and her investigative work was beautifully recorded with detailed drawing and well crafted machine models. **Sarah Baguley** integrated a sustainable philosophy into her work with imaginative ideas for growing a green landscape on the urban Urdd headquarters, and her sustainable road trip was admirable.

The standard of the competition was high and to study the detailed visual proposals of all the applicants was a great pleasure. We would encourage all the candidates that were not successful and are eligible to re-submit for next year's Architecture Scholarship. We would re-iterate that as well as a good portfolio, the selectors are looking for a clear intention and high (but realisable) aspirations that will advance their own design skills and ultimately the Welsh Built Landscape.

Gwyn Lloyd Jones

Stephen West



Adennill Congregados / Reclaiming Congregados
Philip Henshaw

Bywyd a Gwaith Charles Byrd

Cen Williams

Os yw hirhoedledd fyth wedi dibynnu ar ganlyn breuddwyd bersonol yna nid yw hi'n syndod o gwbl bod Charles Byrd yn tynnu at ei 92 oed?

Fodd bynnag, nid yw ei ymlyniad llwyr i'r weledigaeth o weld ei holl waith wedi ei arddangos o dan un to mewn arena gyhoeddus yn freuddwyd gwrach amhosibl i'w chyflawni. Am gyfnod byr gwireddwyd rhan o'i freuddwyd pan arddangoswyd ei beiriannau cinetig yn yr Hen Lyfrgell Caerdydd. Yn 1989 cafodd yr hen Lyfrgell Ganolog yn yr Ais ei chau gan ddod yn stiwdio dros dro i nifer o artistiaid a hefyd yn ofod arddangosfeydd. Neilltuwyd rhan o'r gofod sef **Amgueddfa Peiriannau Lledrithiol**, i waith Charles Byrd. Ond byr iawn serch hynny fu oes y trefniant hwn. Yn 1997 caeodd yr Hen Lyfrgell a chafodd hen beiriannau Charles Byrd a fu'n diddanu'r hen a'r ifanc am saith mlynedd eu rhoi i'r naill ochr a'u storio. Ers hynny treuliydwyd llawer o amser Charles yn dilyn y syniad o droi'r freuddwyd hon yn realiti unwaith eto. Yn y blynyddoedd diwethaf fodd bynnag ni chafodd dim o'r casgliad anferth hwn o'i weithiau eu gweld yn gyhoeddus. Mae ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd wedi ail ennyn diddordeb yn ei waith ac wedi rhoi cyfle i bawb sy'n ymweld â'r ŵyl i weld, gwerthfawrogi a rhyfeddu at waith yr artist anhygoel hwn.

Wrth gategoreiddio gwaith Charles Byrd mae David Briers yn awgrymu y “gellir rhannu ei waith i dri chlyfnod clir”. Yn ystod y 1950au a dechrau'r 1960au cynnar dechreuodd Charles ar ei yrfa drwy baentio golygfeydd Caerdydd a'r ardaloedd o amgylch. Yn y 1960au cynhyrchodd gannoedd o baentiadau haniaethol cyn bwrw at ei waith cinetig yn y 1970au.

Pan benderfynodd Charles droi i fod yn artist llawn amser roedd ei faes testun yn ddewis amlwg. Gan ei fod yn methu teithio'n bell oherwydd prinder arian nid yw'n syndod ei fod wedi paentio nifer o olygfeydd mewnol, bywyd llonydd, yn aml fasau o flodau a hefyd golygfeydd o erddi cefn ei gymdogion gan edrych arnynt o fannau ar y llawr cyntaf. Ymhellach i

ffwrdd o'i amgylchedd agos ni theithiodd Charles yn bell i chwilio ysbrydoliaeth. Cyfyngwyd ei destunau allanol bron yn llwyr i'r ardal o amgylch canol Caerdydd lle y rhoddodd amrywiaeth y ddinaswedd ddigonedd o ddeunydd iddo. Ymddangosai bob amser bod Charles yn hapus i baentio'r hyn a adwaenai orau. Daeth y strydoedd lle'r arferai redeg arnynt a'r caeau y bu unwaith yn chwarae ynddynt nawr yn destunau i'w baentiadau.

Unwaith y trawai llygad Charles yn fwy manwl ar ei destunau, y blodau mewn fâs ar fwrdd y gegin neu iardiau cefn tai ar hyd stryd yn Nhreganna, newidiodd ei arddull yn raddol i gynnwys ei awydd i gofnodi mewn mwy o fanylder. Daeth o hyd i arddull a ganiataodd iddo gofnodi gyda chryn gywirdeb gaeau glas a choed brithliw parciau Caerdydd. Mae'r dull hwn, gan ddefnyddio cyffyrddiadau bach o ystod o liwiau pur, yn rhoi bywiogrwydd i'w baentiadau.

Un o'i baentiadau cyntaf oedd un o Gastell Caerdydd. Gwrthododd yr olygfa fwy poblogaidd o'r Castell ac yn hytrach fe'i paentiodd o gyfeiriad Parc Bute. Ni ddenwyd Charles gan adeiladau crand y ddinas oedd yn tyfu. Daeth hyd yn oed depo glanhau Corfforaeth Caerdydd yn destun deniadol i un o'i baentiadau. Mae'r paentiad o Erddi'r Orsedd yn tanlinellu hyn. Er bod y lleoliad yn union gyferbyn â'r Amgueddfa Genedlaethol gwrthododd Charles yr olygfa hon, gan ddewis golygfa o stryd ar yr ochr yn hytrach na chynnwys ffryntiad ysblennydd yr Amgueddfa Genedlaethol. Mae llawer o'i baentiadau fodd bynnag yn cofnodi rhannau o hanes Caerdydd sydd wedi newid bron y tu hwnt i adnabyddiaeth neu sydd wedi hen ddiflannu. Mae'r paentiadau hyn yn dod yn gofnodion sydd hyd yn oed yn fwy arwyddocaol o orffennol Caerdydd.

Mae llawer o'i baentiadau yn cynnwys elfen ddynol, yn aml wedi'i gosod i mewn fel pwynt ffocws i gynorthwyo'r persbectif. Mewn rhai eraill fodd bynnag pobl sydd yn

ganolbwynt. Gwelir menywod yn siopa yn y Farchnad Ganolog a gwelir yn aml blant yn chwarae ar y strydoedd. Paentiodd Charles y darlun o'r farchnad yn 1956 ond er bod ffasiwn y cyfnod yn bradychu ei hoed mae Marchnad Ganolog Caerdydd wedi para'n gymharol ddigyfnewid - gwerddon dim ond rai llathenni i ffwrdd o ruthr gwyllt canol dinas brysur.

Erbyn bod Charles yn dechrau paentio ardaloedd y dociau yng nghanol y 1960au roedd oes aur y dociau ar ben ac roedd llawer o'r adeiladau yn raddol dod yn wag ac yn cael eu hesgeuluso. Roedd llawer ohonynt yn mynd yn fwy a mwy adfeiliedig. Mae gan y paentiadau hyn felly arwyddocâd ychwanegol gan eu bod yn dal hanfod hanesyddol 'Tiger Bay' ac yn rhoi i'r gwyliwr gipolwg ar y rhan hon o hanes diwydiannol cyfoethog Caerdydd.

Noda David Briars mai ail gyfnod arwyddocaol gwaith Charles yw ei gorff mawr o waith haniaethol. Er bod hyn yn wir, nid oedd y trawsnewidiad i'r haniaethol mor glinigol ag y byddai rhywun yn tybio. Mae llawer o'i ddarluniau cynnar, astudiaethau ar gyfer ei baentiadau Caerdydd, hefyd yn dangos sut yr oedd elfennau gweledol llinellau yn rhoi sylfaen i'w ddarluniau - sgaffaldiau y caiff deunydd ei destunau ei hongian arnynt yn ddiweddarach. Hefyd cyflwynodd olygfeydd eira o ystafell llawr cyntaf yn Nhreganna linellau onglog llywodraethol sy'n gwrthbwyso defnydd mentrus o linell fertigol y goleuadau stryd i ddominyddu'r gwaith. Mewn paentiad yn dwyn y teitl **Gerddi Sophia** mae Charles yn troi ei gefn ar y gerddi gan ddewis hoelio ei sylw yn hytrach ar y llwybr lled anatyniadol sy'n arwain drwy gatieau'r castell ac ymlaen i Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Mae'r darlun eto'n dangos ei awydd i haniaethu elfennau gweledol. Mae'r ymdrechion cynnar hyn yn rhagflaenwyr dros gant o baentiadau haniaethol.

Caniatawyd i'r rhan fwyaf o'i ddarluniau haniaethol i esblygu yn organig i greu cyfansoddiad cytbwys - ymarferiadau mewn ymchwilio gofod, lliw a siâp. Heb ddeunydd testun

diffiniedig nid oes gan lawer o'r lluniau haniaethol deitlau penodol a chyfeirir atynt yn aml fel **Haniaethol 1**, **Haniaethol 2** a **Tirwedd Haniaethol**. Yn gynyddol cyflwynodd Charles nifer o ddarnau pren gwastad, yn aml wedi'u lliwio'n llachar, ar ei ddarnau haniaethol i bwysleisio siapau arbennig ac i gynorthwyo ac ymestyn y syniad o bersbectif a weithiwyd mor llwyddiannus yn ei baentiadau cynrychioliadol. Hefyd ychwanegwyd siapau pellach a hyd yn oed raean i greu amrywiaeth gweadau. Estynnwyd yr arfer hwn yn raddol pan ychwanegwyd rodiau wedi'u cynnal ar silindrau isel i greu cerfwedd isel ar yr arwynebau. Mae'r rhain yn atgoffa rhywun o fapiau trefol, byrddau cylched trydan neu hyd yn oed beiriannau *pinball*. Adeiladwyd un darn fel cloch drws gymhleth yn cynnwys swîts, botwm ac wrth gwrs cloch.

Wrth i'r darnau hyn ddod yn fwy o dreth dechreuodd Charles chwilio am eitemau amrywiol y gallai eu hychwanegu at ei greadigaethau – cyrhaeddodd gaeadau tin, riliau cotwm, peli plastig bach a dalwyr bylbiau a daflwyd ei weithdy stiwdio yn Nhreganna. Daeth llawer o'i greadigaethau i fod yn ffurfiau annibynnol. Dechreuodd pileri, tyrau, robotiaid a cheiliogod y gwynt ymddangos o'i fainc waith.

Ymddangosai yn gam rhesymol i ychwanegu symudiad i'r peiriannau hyn ac er bod rhai o'r gweithiau cynnar yn cael eu gweithio â llaw rhoddwyd modur bach i mewn yn sawl un ohonynt. Byddai'r moduron hyn weithiau yn troi disgiau lliw neu felinau gwynt. Weithiau byddai'r symudiad yn sigo clychau bach i ganu ac weithiau'n gwneud i degan bychan o ofodwr i gylchdroi ar lwyfan bach. Roedd rhai wedi eu cysylltu â chamiau a alluogai'r drymiau i gael eu taro a deuai rhai yn fyw gyda chymorth ychydig o fandiau rwber. Rhoddwyd radio oedd yn gweithio i mewn yn rhai o'r ffigurau robotig yr olwg.

Daeth byd Charles i ddod i droi fwyfwy o gwmpas cynhyrchu'r peiriannau cyfareddol hyn. O reidrwydd byddai'n dibynnu ar gasglu ac ailgylchu cynifer o wrthrychau a


daflwyd o'r neilltu ag y gallai. Cyrhaeddodd hen feiciau, colandr, peiriant gwnïo, hen olwynion pramiau, hen het bowler a hyd yn oed hen gwpwrdd dillad i'w weithdy.

Roedd cynhyrchu'r hyn oedd Charles yn eu galw yn gerfluniau cinetig yn waith difrifol. Er bod golwg cyntaf ei beiriannau yn cyfareddu ac yn ennyn edmygedd ac yn gwneud i bobl wenu, mae'n cuddio dealltwriaeth ddofn a gwerthfawrogiad o gyfansoddi pensaernïol. Efallai bod llawer o'r adeiladwaith a'r mecanwaith yn ymddangos yn elfennol ond mae llawer o'r gwaith wedi'i adeiladu â chywirdeb pensaernïol, i drwch y blewyn a chyda sylw i fanylion. Mae i lawer ohonynt gymesuredd rhyfeddol, rhyw gydbwysedd sy'n creu'r teimlad o gyflawnrwydd.

Mae cysylltiad Charles Byrd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn mynd yn ôl mor bell â 1956 pan arddangoswyd gwaith ganddo yn dwyn y teitl **Pont Rheilffordd** yn Aberdâr ac yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1960 cafodd paentiad ganddo dan yr enw **Cadair Stiwdio** ei arddangos.

Ym 1970 pan ymwelodd yr ŵyl â Rhydaman trefnodd yr Eisteddfod ar y cyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ddigwyddiad o'r enw **Tuag at Gerfluniaeth**. Gwahoddwyd artistiaid i gyflwyno eu syniadau am waith cerflunio yn gyntaf ar ffurf *maquettes*. Bu'r gystadleuaeth yn eithriadol boblogaidd gyda chant tri deg o gynigion. Efallai bod presenoldeb Sean Kenny a Eduardo Paolozzi fel deholwyr wedi cyfrannu i ddenu'r ymateb gwych. Roedd Charles ymhlith y saith a ddewiswyd ac fe'i comisiynwyd i gynhyrchu fersiwn graddfa lawn o **Olwynion, Clychau a Throellenni**.

Daeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch 2008 yn gatalydd i ail ennyn diddordeb yng ngwaith Charles Byrd. Yn dilyn yr ŵyl caiff ymdrechion eu gwneud i ddod o hyd i gartref priodol i beiriannau Charles fel y gall cenedlaethau'r dyfodol werthfawrogi a dathlu bywyd a gwaith ar artist cyfareddol hwn - 'Cyfrinach orau Caerdydd'.



Robot
Charles Byrd



Charles Byrd (2008)

The life and work of Charles Byrd

Cen Williams



Treganna, golygfa yn y gaeaf (1950au) / Canton, a winter scene (1950's)

Charles Byrd

If longevity is ever dependent on the pursuit of a personal dream then is it any wonder that Charles Byrd in now entering his ninety second year?

His preoccupation with the vision of seeing all his work exhibited under one roof in a public arena was not however an unachievable pipedream. For a short period, part of his dream became a reality when his kinetic machines were exhibited at Cardiff's old library. In 1989 the old Central Library in The Hayes was closed and became temporary studios for a number of artists and also an exhibition space. Part of the space, namely **The Museum of Magical Machines**, was dedicated to the work of Charles Byrd. This arrangement however was short-lived. In 1997 the old library closed and Charles's machines, which, for seven years had entertained the young and old alike were put into storage. Since then much of Charles's days have been spent pursuing the idea of turning this dream into a reality once more. In recent times however none of his huge collection of works has been in the public domain. The visit of the National Eisteddfod to Cardiff has rekindled an interest in his work and has provided the opportunity for all who visit the festival to witness, appreciate and to look in wonderment at the work of this remarkable artist.

In categorising Charles Byrd's work David Briers suggests that "his work divides into three clear periods". During the 1950's and early 60's Charles started on his career by painting the landscape of Cardiff and the surrounding areas. In the 1960's he produced hundreds of abstract paintings before embarking on his kinetic work in the 1970's.

When Charles decided to become a full time artist his subject matter was an obvious choice. Unable to travel far due to lack of money, it is not surprising that he painted numerous interior scenes, still lives, often vases of flowers and also the views of the neighbours' backyards and

gardens from first floor vantage points. Away from his immediate surroundings Charles did not travel far to seek inspiration. His exterior subjects were limited almost exclusively to the area around the centre of Cardiff where the variety of the cityscape provided ample material for him. Charles always seemed content to paint what he knew best. The streets where he once ran and the fields where he once played now became subjects for his paintings.

Once Charles's eye took a closer view of his subjects, the flowers in a vase on the kitchen table or the backyards of houses along a Canton street, his style gradually changed to accommodate his desire to record more detail. He found a style which allowed him to record with some accuracy the grassy fields and the dappled trees of Cardiff's parklands. This approach, using small dabs of a range of pure colours gives his paintings vibrancy.

One of his first paintings was of Cardiff Castle. He shunned the more popular view of the castle deciding instead to paint it from Bute Park. Charles was not attracted by the grandiose buildings of the emerging city. Even a Cardiff Corporation cleaning depot became an attractive subject for one of his paintings. The painting of Gorsedd Gardens underlines this. Despite being located directly opposite the National Museum, Charles rejected this viewpoint, choosing to select a view from the side street rather than to include the magnificent frontage of the National Museum. Many of his paintings however record a part of Cardiff's history that has changed almost beyond recognition or has long disappeared. These paintings become even more significant records of Cardiff's past.

Many of his paintings include a human element, often inserted as focal point to aid the perspective. In others however, people take centre stage. Women are seen shopping at the Central Market and children are often seen playing in the streets. Charles painted the picture of the

market in 1956 but despite the fashion of the time betraying its age, Cardiff Central Market has remained comparatively unchanged - an oasis only a few yards away from the frantic activity of a busy city centre.

By the time Charles started to paint the docklands in the mid 1960's the heyday of the docks was over and many of the buildings were gradually being emptied and neglected. Many were becoming increasingly derelict. These paintings therefore have an added significance as they capture the essence of historical 'Tiger Bay' and give the viewer glimpses of this part of Cardiff's rich industrial history

David Briars cites the second significant period in Charles's work as his large body of abstract work. Although this is true, the transition into abstraction was not as clinical as one would think. Many of his earlier drawings, studies for his Cardiff paintings also show how the visual elements of lines provide foundations for the drawings - scaffolds onto which his subject matter is later draped. A snow scene painted from a first floor room in Canton also introduced dominant angular lines compete with the daring use of the vertical line of the street lighting to dominate the work. In a painting called **Sophia Gardens**, Charles turns his back on the gardens preferring to concentrate on the rather unattractive path which leads through the castle gates onto busy Cowbridge Road East. The painting again betrays his desire to abstract visual elements. These early efforts later become the forerunners of over a hundred abstract paintings.

Most of his abstracts were allowed to evolve organically to create balanced compositions - exercises in the exploration of space, colour and shape. Without a defined subject matter many of the abstracts have no specific titles and are often referred to as **Abstract 1**, **Abstract 2** and **Abstract Relief**. Increasingly, Charles introduced a number of flat wooden

pieces, often brightly coloured, onto his abstract pieces, to emphasise certain shapes and to aid and extend the notion of perspective so successfully executed in his representational paintings. Further shapes and even gravel was also added to create a variety of textures. This practice was gradually extended when rods supported on shallow cylinders to produce a bas relief were added to the surfaces. These are reminders of urban maps, electrical circuit boards or even pinball machines. One piece was constructed as an elaborate doorbell complete with a switch, button and of course a bell.

As these pieces became more demanding Charles began to forage for various items he could add to his creations - tin lids, cotton reels, small plastic balls and discarded bulb holders all found their way to his studio workshop in Canton. Many of his creations became freestanding forms. Pillars, towers, robots and weather vanes began to emerge from his workbench.

It seemed a logical step to add movement to these machines and although some earlier works were operated by hand, many were inserted with small motors. These motors sometimes turned coloured discs or wind-mills. Sometimes the movement stirred small bells to ring and sometimes made a little toy spaceman revolve on his small platform. Some were connected to a cam which enabled drums to be beaten and some came to life with the help of a few rubber bands. Some robotic looking figures were installed with working radios.

Increasingly, Charles's world revolved around the production of these fascinating machines. Through necessity he relied on acquiring and recycling as many discarded objects as he could. Old bicycles, a colander, a sewing machine, old pram wheels, an old bowler hat and even a disused wardrobe found their way to his workshop.


Producing what Charles calls his kinetic sculptures became serious business. Although the initial appearance of his

machines aroused fascination and admiration and made people smile, it belies a deep understanding and appreciation of architectural composition. Much of the construction and the mechanics might look elementary but many of the pieces are constructed with architectural accuracy, precision and an attention to detail. Many have an uncanny symmetry, a balance, evoking the feeling of 'completeness'.

Charles Byrd's association with the National Eisteddfod goes back as far as 1956 when he exhibited a painting called **Railway Bridge** at Aberdare and at the Cardiff Eisteddfod in 1960, exhibiting a painting called **Studio Chair**.

In 1970, when the festival visited Ammanford, the Eisteddfod, together with the Welsh Arts Council organised an event called **Towards Sculpture**. Artists were invited to submit their ideas for a sculpture firstly in the form of maquettes. The competition proved to be extremely popular with a hundred and thirty entries. The presence of Sean Kenny and Eduardo Paolozzi as selectors possibly contributed to the large response. Charles was amongst the seven selected and was commissioned to produce a full scale version of **Wheels, Bells and Spirals**.

The Cardiff and District 2008 National Eisteddfod of Wales became a catalyst to regenerate interest in Charles Byrd's work. Following the festival, efforts will be made to find appropriate homes for Charles's machines so that future generations can appreciate and celebrate the life and work of this fascinating artist - "Cardiff's best kept secret."



Pendiliau / Pendulums (1963)
Charles Byrd

TRACE: Oddi Cartref

Aeth 30 mlynedd heibio ers trefnu'r digwyddiadau celfyddyd berfformans yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Wrecsam yn 1977. Er mwyn dathlu celfyddyd fyw yng Nghymru ac i gyd daro gyda diwedd astudiaeth Heike Roms **Beth yw Performance yn Gymraeg?**, mae'r Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol lleol wedi penderfynu hwyluso gweithgareddau Gofod Celf Ryngweithiol TRACE yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae Caerdydd ar flaen y gad ym maes celfyddyd fyw yng Nghymru a'r tu hwnt. Ers y flwyddyn 2000 mae TRACE, sydd wedi ymrwmo i ymchwilio, chwilio, lledaenu a thrafod celfyddyd berfformans, wedi cyflwyno ystod eang o weithiau byw unigol mewn tŷ teras yn Adamsdown, gan rai o'r ymarferwyr mwyaf nodedig sy'n gweithio yn y maes heddiw. Cyflwynodd pob artist hefyd arddangosfa gwaith gosod yn Moira Place yn cynnwys gweddillion neu olion o'u gweithgaredd. Yn ôl TRACE, 'cynigir y deunydd a adawyd, neu a wrthodwyd i bob golwg, ar gyfer myfyrdod ac ystyriaeth mewn perthynas ag archwiliad ac ymchwil artistiaid cyfoes. Wrth ddod â'r elfennau cynnil hyn ynghyd mae rhywun yn dod yn ymwybodol o ryw unoliaeth o ran ymarfer; archif fyw wedi'i chanoli ar broses, digwyddiadau a phrofiadau - 'olion' sy'n ymgorffoni'r nodwedd frau honno lle mae'r gwrthrych ei hun yn llawn o'r perfformiad a'i creodd. Gyda hyn mewn golwg mae'r cwmni o gydweithwyr hefyd yn creu arddangosfeydd cyson o'i ddogfennaeth seiliedig ar archif, gweddillion gwrthrychau rhannol a grëwyd drwy broses celfyddyd berfformans.

Mae'n nod hefyd gan TRACE i gynrychioli'r croesffyrdd rhwng disgyblaethau artistig. Lle ar gyfer trafodaeth a lledaeniad ehangach ymarfer celfyddyd gyfoes sy'n ceisio gosod pwyslais ar gyd-destun yn y broses weithio. Fodd bynnag mae'r ffocws yn bennaf ar berfformans - gan ymchwilio'r ffyrdd na roddwyd cynnig arnynt yn flaenorol o 'feddwl' a 'gwneud' a gynigir gan gyd-fyw celfyddyd berfformans, ei olion a'i weddillion a'i oblygiad ar gyfer celfyddyd sy'n seiliedig ar waith gosod.

I'r perwyl hwn, yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch mae **Gwaith** yn digwydd ar ffurf cyfres o ymyriadau perfformans ar faes yr Eisteddfod gan ddefnyddio atgynhyrchiad ar raddfa 1:1 a grëwyd yn arbennig o'r gofod celf 'cartref' TRACE sydd wedi'i leoli mewn tŷ teras sydd â phobl yn byw ynddo yn Moira Place, Adamsdown. Bydd y gosodiad a'r perfformiadau safle penodol gan yr artistiaid André Stitt, Beth Greenhalgh, Eddie Ladd, Lee Hassall, Mike Pearson, Phil Babot, a'i bardd gwadd Tudur Dylan, yn adlewyrchu'r gweithgaredd a feithrinwyd gan TRACE yng Nghaerdydd.

Bydd yr artistiaid yn ymroi mewn deialog barhaus gyda'r amgylchedd hwn a ailgodwyd gan fynd drwy ei adeiladwaith a gwneud ymyriadau ar ei strwythur. Disodlir cyfeiriadau at leoliadau ac amgylchiadau yng Nghaerdydd a'r cyffiniau a'u hadleoli ar y Maes gan greu ymchwiliadau aml-haenog drwy sgraffellu ôl-drefedigaethol.

Yn ystod yr wythnos caiff y cyhoedd fynediad llawn i brofi'r gweithgaredd 'byw' a'r gwaith gosod, tystiolaeth ac olion gweddilliol y perfformiadau sy'n deillio ohono. Caiff adroddiad ar y pryd a thestunau eu creu yn ystod y gweithgaredd dyddiol hwn gan y bardd gwadd Tudur Dylan.

TRACE: Displaced

Over 30 years have passed since the performance art events organised at the National Eisteddfod of Wales held at Wrexham in 1977. To celebrate live art in Wales and to coincide with the culmination of Heike Roms' study **What's Welsh For Performance Art?**, the local Visual Arts Subcommittee decided to facilitate the activities of TRACE Interaction Artspace at the National Eisteddfod.

Cardiff is at the forefront of live art in Wales and beyond. Since 2000, TRACE, dedicated to the research, investigation, dissemination and discourse of performance art, has presented a broad range of solo live artworks in a terraced house in Adamsdown, by the most significant practitioners working in the world today. Each artist also presented an installation exhibition at Moira Place consisting of the residue or 'traces' from their performance activity. According to TRACE, 'the seemingly left-over or discarded matter from performance activity is offered up for contemplation and reflection in relation to contemporary artists exploration, and research. In bringing together these discreet elements one becomes aware of a certain unity of practice; a living archive centred on process, events and experiences - 'traces' that embody that fragile quality where the object itself is imbued with the performance that created it'. With this in mind, the collective also creates regular exhibitions of its archive based documentations, residues and partial objects created through the process of performance art.

TRACE also aims to represent the intersections between artistic disciplines. A place for wider discourse and dissemination of contemporary art practice that seeks to place emphasis on context in the working process. However, the focus is primarily performative - exploring the previously untried ways of 'thinking' and 'doing' offered by the co-habitation of performance art, its 'traces' and residues' and its implication for installation based art.

To this end, at the Cardiff and District 2008 National Eisteddfod of Wales, the work **Gwaith** takes the form of a series of performance interventions on the festival field utilising a specially constructed 1:1 scaled replica of the 'domestic' TRACE artspace which is situated in an inhabited terrace house at Moira Place, Adamsdown. The site-specific installation and performances by artists André Stitt, Beth Greenhalgh, Eddie Ladd, Lee Hassall, Mike Pearson, Phil Babot, and their guest, Tudur Dylan, will reflect the activities cultivated by TRACE in Cardiff.

The artists will engage in an ongoing dialogue with this rebuilt environment, navigating its physicality and making interventions upon its structure. References to locations and conditions in and around Cardiff are displaced and relocated to the 'Maes' creating multi-layered investigations through post-colonial scouring.

During the week, the the public will have full access throughout to experience the 'live' activity and the resulting installation, evidence and residual traces of the performances. Simultaneous reportage and texts will be create during this daily activity by guest writer Tudur Dylan.

**Panel Sefydlog Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Standing Panel**

Cadeirydd / Chair

Angharad Pearce Jones

Lowri Davies	Emyr Roberts
Eleri Wyn Evans	Gwawr Wyn Roberts
Ann F Jones	Peter Spriggs
Gwenno Eleri Jones	Catrin Williams
Sian Owen	Cen Williams

Swyddog Celfyddydau Gweledol / Visual Arts Officer

Robyn Tomos

**Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Sub-committee**

Cadeirydd / Chair

Iwan Bala

Is-gadeirydd / Vice-chair

Eleri Wyn Evans

Ysgrifennydd / Secretary

Lowri Davies

Sian Melangell Dafydd	Gwyn Roberts
Elinor Mair Davies	Mererid Velios
Seiriol Davies	Cen Williams
Carwyn Evans	Jean Williams
Gwenno Angharad Jones	Sioned Williams
Bethan Roberts	Tracey Williams

Detholwyr Celfyddydau Gweledol / Visual Arts Selectors

Claire Curneen
Ifor Davies
Tessa Jackson
Nia Roberts
Sue Williams

Detholwyr Pensaernïaeth / Architecture Selectors

Cindy Harris
Richard Weston

**Detholwyr Ysgoloriaeth Bensaernïaeth /
Architecture Scholarship Selectors**

Gwyn Lloyd Jones
Stephen West

**Curaduron arddangosfa Charles Byrd /
Charles Byrd exhibition curators**

Cen Williams
Morgen Hall

Dylunydd yr Arddangosfa / Exhibition Designer

Sean Harris

Prif gynorthwy-ydd / Chief assistant

Richard Robinson

**Dylunydd Rhaglen Pensaernïaeth yng Nghymru ac
Ysgoloriaeth Bensaernïaeth / Architecture in Wales
and Architecture Scholarship Programme Designer**

Mike Barnes

Ymgynghorydd Dylunio / Design Consultant

Philip Hughes

Prif Dechnegydd / Chief Technician

Mark Jones

Cynorthwy-ydd / Assistant

Elen Bonner

Cludiant / Transport

Pete Goodridge, Artworks

Bardd / Bard

Christine James

Dylunio'r catalog / Catalogue design

Zenith Media